# Sefydlu a chynnal deori wyau gwyrdd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweithgareddau sydd yn gysylltiedig â sefydlu a chynnal deori wyau pysgod gwyrdd (eogaidd). Gellir ei chymhwyso i unrhyw ddeorfa bysgod lle mae'r deori wedi ei gwblhau. Mae'n gofyn bod gwaith yn cael gwblhau yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol y safle.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn sefydlu ac yn cynnal deori wyau gwyrdd ar gyfer pysgod sydd yn cael eu ffermio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud gwaith yn ddiogel yn unol â gofynion iechyd a diogelwch perthnasol
2. caledi a pharatoi wyau pysgod ar gyfer eu deori
3. amcangyfrif wyau pysgod yn ôl cyfaint
4. sefydlu wyau gwyrdd i ddeori yn ôl dwysedd penodol mewn ffordd sydd yn osgoi achosi niwed
5. sefydlu a chynnal llif dŵr a hylendid trwy gydol y deori
6. cynnal amodau amgylcheddol wrth ddeori i gyflawni'r datblygiad gofynnol
7. arsylwi ac adrodd ar ddatblygiad wyau pysgod
8. darparu gwybodaeth i gadw cofnodion deori yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion y safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol sydd yn gysylltiedig â deori wyau pysgod
2. sut a pham y mae wyau'n cael eu paratoi ar gyfer eu deori
3. gweithdrefnau'r safle ar gyfer cynnal hylendid a bioddiogelwch mewn deorfa
4. y broses a ddefnyddir i greu pob ŵy triploid benywaidd mewn brithyll
5. sut i amcangyfrif wyau pysgod yn ôl cyfaint
6. sut a pham y mae hyfywedd wyau pysgod yn cael eu gwirio
7. anghenion datblygiadol ac amgylcheddol wyau'r pysgod sydd yn cael eu ffermio
8. y term "**diwrnodau gradd**" a sut mae'n cael ei gyfrifo
9. datblygiad pysgod a chyfnodau deori
10. y gwahaniaethau rhwng **wyau llygaid** ac wyau gwyrdd
11. argyfyngau deorfa a'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd argyfwng yn cael ei nodi
12. y gofynion cyfreithiol a gofynion y safle ar gyfer cadw cofnodion deori

## Geirfa

**wyau gwyrdd** – wyau sydd newydd eu ffrwythloni ac yn fregus iawn

**wyau llygaid** – wyau sydd wedi datblygu i'r pwynt lle gellir gweld lliw y llygad. Yn ystod y cyfnod hwn maent yn llai bregus a gellir eu symud.

**diwrnodau gradd** – **dull o gyfrifo cyfradd twf pysgod trwy luosi nifer y diwrnodau gan dymheredd cyfartalog y dŵr mewn graddau Celsius ar gyfer y cyfnod hwnnw o amser e.e 5 diwrnod gyda thymheredd dŵr o 10 gradd = 50 o ddiwrnodau gradd. Mae gan rywogaethau gwahanol o bysgod ofynion "diwrnod gradd" i gyrraedd y cyfnod twf gofynnol.

LANAqu16

Sefydlu a chynnal deori wyau gwyrdd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Awst 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Awst 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu16 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Cadwraeth Amgylcheddol, Dyframaethu |
| **Geiriau Allweddol** | pysgod; ŵy gwyrdd |